# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 4 Tachwedd 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6617

# 300(v3)

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf rhithwir, gydag Aelodau yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg

Dechreuodd yr eitem am 14.23

Gofynnwyd y 6 chwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.19

**Gofyn i Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**

**Helen Mary Jones (Canolbarth and Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y penderfyniad i gau'r gronfa cadernid economaidd yn gynnar i geisiadau sy'n ymwneud â'r cyfnod atal byr?

## 4 Datganiadau 90 eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.38

Gwnaeth Llyr Gruffydd ddatganiad am - Wythnos Hinsawdd Cymru.

## 5 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Atal trafodion cyn pleidleisiau electronig o bell

Dechreuodd yr eitem am 15.40

**NDM7448** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Atal trafodion cyn pleidleisiau electronig o bell', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Hydref 2020.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 34.14D, fel y nodir yn Atodiad A adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Cynnig i ethol Aelod i Bwyllgor

Dechreuodd yr eitem am 15.40

**NDM7453** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Caroline Jones (Y Gynghrair Annibynnol dros Ddiwygio) yn aelod o'r Pwyllgor Busnes.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Cynnig i ethol Aelod i Bwyllgor

Dechreuodd yr eitem am 15.41

**NDM7454** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Mark Reckless (Annibynnol) yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Cynnig i nodi'r adroddiad blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Senedd ar gyfer 2019-20

Dechreuodd yr eitem am 15.41

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7447** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â pharagraff 8 (8) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:

Yn nodi'r Adroddiad Blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Senedd, a osodwyd gerbron y Senedd ar 18 Mehefin 2020.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 3 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 9 Dadl ar ddeisebau: Addysgu hanes mewn ysgolion

Dechreuodd yr eitem am 16.08

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7450** Janet Finch-Saunders (Aberconwy)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r deisebau canlynol ynglŷn â dysgu hanes mewn ysgolion:

a) Deiseb 'P-05-992 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu corff cyffredin o wybodaeth am Hanes Cymru fydd pob disgybl yn ei ddysgu' a gasglodd 7,927 o lofnodion; a

b) Deiseb 'P-05-1000 Ei gwneud yn orfodol i hanesion pobl dduon a POC y DU gael eu haddysgu yng nghwricwlwm addysg Cymru' a gasglodd 34,736 o lofnodion.

[P-05-992 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu corff cyffredin o wybodaeth am Hanes Cymru fydd pob disgybl yn ei ddysgu]

[P-05-1000 Ei gwneud yn orfodol i hanesion pobl dduon a POC y DU gael eu haddysgu yng nghwricwlwm addysg Cymru]

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 4 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 10 Cyfnod pleidleisio

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.14D, am 17.10, cafodd y trafodion eu hatal dros dro er mwyn caniatáu egwyl technegol cyn y cyfnod pleidleisio.

Dechreuodd yr eitem am 17.18

## Crynodeb o Bleidleisiau

## 11 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.20

**NDM7449** [David J. Rowlands (Dwyrain De Cymru)]

Cymesuredd cyfyngiadau symud Llywodraeth Cymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 17.43

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 10 Tachwedd 2020**